Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg |
This document is also available in English

# Y tîm prentisiaethau

## Diweddariad: Medi 2026

## Diweddariadau Fframwaith / Llwybr

### Prentisiaethau Lefelau 2, 3, 4 a 5 – Cymwysterau a YCHWANEGWYD

### Gwallt a Harddwch

| Cymhwyster | Corff Dyfarnu | Cymhwysedd, Gwybodaeth neu Gyfunol |
|---|---|---|
| Tystysgrif L3 mewn Mynediad i Therapïau Esthetig | VTCT Skills (ITEC) | Cyfunol |
| Tystysgrif L3 mewn Electrotherapi i'r Wyneb | VTCT Skills | Cyfunol |
| Tystysgrif L4 mewn Therapïau Esthetig Uwch i Adnewyddu Croen | VTCT Skills | Cyfunol |

### Gofal Iechyd

| Cymhwyster | Corff Dyfarnu | Cymhwysedd, Gwybodaeth neu Gyfunol |
|---|---|---|
| Diploma L3 mewn Rhoi Gwaed yng Nghymru | Agored Cymru | Cyfunol |

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

## Gwyddorau Bywyd

| Cymhwyster | Corff Dyfarnu | Cymhwysedd, Gwybodaeth neu Gyfunol |
|---|---|---|
| Diploma NVQ L4 mewn Gweithgareddau Labordy a Gweithgareddau Technegol Cysylltiedig | GQA | Cymhwysedd |
| Tystysgrif Cenedlaethol Uwch BTEC L4 mewn Gwyddorau Cymhwysol | Pearson | Gwybodaeth |

## Peirianneg

| Cymhwyster | Corff Dyfarnu | Cymhwysedd, Gwybodaeth neu Gyfunol |
|---|---|---|
| Diploma NVQ L4 mewn Gweithgynhyrchu Peirianneg | EAL | Cymhwysedd |

## Addysg a Gwasanaethau Gwybodaeth

| Cymhwyster | Corff Dyfarnu | Cymhwysedd, Gwybodaeth neu Gyfunol |
|---|---|---|
| Diploma NVQ L3 mewn Cefnogi Darpariaeth Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol (RQF) | Focus Awards | Cyfunol |
| Diploma L3 mewn Datblygu Iechyd a Lles | Agored Cymru | Cyfunol |
| Diploma L4 mewn Arwain Iechyd a Lles | Agored Cymru | Cyfunol |

## Cerbydau, Cludiant a Logisteg

| Cymhwyster | Corff Dyfarnu | Cymhwysedd, Gwybodaeth neu Gyfunol |
|---|---|---|
| Diploma Lefel 2 mewn Egwyddorion Rhannau Cerbydau | City & Guilds | Gwybodaeth |

### Technoleg Ddigidol

| Cymhwyster | Corff Dyfarnu | Cymhwysedd, Gwybodaeth neu Gyfunol |
|---|---|---|
| Diploma BTEC L3 mewn Cymhwysedd Proffesiynol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol TG a Thelathrebu (Cymru) | Pearson | Cymhwysedd |
| Diploma L2 mewn Sgiliau Digidol ar gyfer Busnes | Agored Cymru | Cyfunol |
| Diploma L3 mewn Sgiliau Digidol ar gyfer Busnes | Agored Cymru | Cyfunol |

### Prentisiaethau Lefelau 2, 3, 4 a 5 – Cymwysterau wedi'u DILEU

Teithio, Twristiaeth a Hamdden

| Cymhwyster | Corff Dyfarnu | Cymhwysedd, Gwybodaeth neu Gyfunol |
|---|---|---|
| Dyfarniad L3 mewn Cefnogi Cleientiaid Beichiog ac Ôl-enedigol ag Ymarfer Corff a Maeth | ActiveIQ | Cyfunol |
| Tystysgrif L2 mewn Hyfforddiant Grŵp | ActiveIQ | Cyfunol |
| Tystysgrif NVQ L2 mewn Arwain Gweithgareddau | ActiveIQ | Cyfunol |
| Tystysgrif L2 mewn Gweithrediadau Hamdden | ActiveIQ | Cyfunol |
| Tystysgrif NVQ L2 mewn Gwasanaethau Gweithredol Hamdden Gweithgar, Dysgu a Lles | ActiveIQ | Cyfunol |
| Tystysgrif L2 mewn Cyfarwyddo Ffitrwydd | ActiveIQ | Cyfunol |
| Dyfarniad Lefel 2 mewn Cyfarwyddo Ymarfer Corff mewn Dŵr | ActiveIQ | Cyfunol |

## Adeiladu / Gwasanaethau Adeiladu * NEWYDD * (Diweddariad yn sgil ymgynghoriad)

### Gwasanaethau Adeiladu

Mae fframweithiau prentisiaeth Lefel 2 Newydd bellach ar gael o fewn y sector adeiladu. Mae'r llwybrau newydd ar gael ar Lefel 2 mewn Gosod brics a Gwaith coed ar safle ac ar Lefel 3 mewn Gorchuddio lloriau ac Oeri, aerdymheru a phympiau gwres. Sylwch:

- Bydd y fframweithiau prentisiaeth Lefel 3 presennol mewn gosod brics a gwaith coed ar safle yn cael eu diddymu ar 31 Hydref 2026.
- Bydd llwybrau prentisiaeth lefel 3 newydd mewn crefft gosod brics a chrefft gwaith coed ar safle yn cael eu cyflwyno ym mis Awst 2027, gan gynnig cyfleoedd dilyniant i'r dysgwyr hynny sy'n cwblhau un o'r prentisiaethau sylfaen Lefel 2 newydd yn y galwedigaethau hyn.
- Mae prentisiaethau sylfaen newydd mewn gweithrediadau gwella adeiladau ac mewn sgaffaldio wrthi'n cael eu datblygu a byddant ar gael ar ddechrau 2027.

Bandiau cyllido Adeiladu Lefel 2 *interim*:
- Cod LP66 ar gyfer Gosod Brics lefel 2 yw Band 9 COB02 sy'n para 24 mis
- Cod LP66 ar gyfer Gwaith Coed ar Safle lefel 2 yw Band 9 CSC02 sy'n para 24 mis

## Y Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru: Gwybodaeth am Geisiadau Grant

Diben y Rhaglen Brentisiaethau yw sicrhau darpariaeth prentisiaethau o ansawdd uchel sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr ac economi Cymru heddiw ac yn y dyfodol. Lluniwyd y rhaglen newydd, sy'n dechrau ar 1 Awst 2027, i gefnogi darparwyr sy'n gallu arddangos y gallu sefydliadol, yr arweinyddiaeth, y gwydnwch ariannol, a'r capasiti darparu sy'n angenrheidiol er mwyn bod yn bartneriaid strategol o fewn system addysg drydyddol Cymru.

Mae'r Rhaglen Brentisiaethau sy'n cael ei hariannu drwy grant wedi'i strwythuro ar sail tair elfen gyflwyno. Bydd angen i ddarparwyr wneud cais ar wahân ar gyfer pob un o dair elfen y rhaglen:

- **Elfen 1** – Rhaglen Prentisiaethau Craidd – cyflwyno fframweithiau sy'n arwain at gymwysterau rheoleiddiedig ar lefelau 2-5.
- **Elfen 2** – Rhaglen Prentisiaethau Gradd – cyflwyno fframweithiau sy'n arwain at raddau ar lefel 6, wedi'u dyfarnu gan brifysgolion.
- **Elfen 3** – Rhaglen Prentisiaethau â Chymorth (mae Prentisiaethau â Chymorth yn cynnig cymorth estynedig i brentisiaid sydd ag anghenion cyflogaeth a dysgu cymhleth, gan alluogi iddynt gwblhau eu prentisiaeth yn llwyddiannus.)

### Dyddiad cau a rhagor o wybodaeth

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw:
- Cam 1 – 02 Hydref 2026
- Cam 2 – 31 Rhagfyr 2026

Mae manylion llawn i'w cael ar wefan Medr. Mae gofynion y rhaglen yn cael eu cyflwyno ynghyd â'r broses ymgeisio a'r trefniadau asesu. Mae canllawiau'n cael eu darparu hefyd. Yn ogystal, bydd Cwestiynau Cyffredin yn cael eu gosod ar wefan Medr a'u

diweddaru'n rheolaidd i fynd i'r afael ag unrhyw ymholiadau pellach sydd gan ddarparwyr newydd neu ddarpar ddarparwyr.

## "Adolygiad Llai Manwl" o'r Fframwaith Prentisiaeth Bwyd a Diod

Fe gomisiynwyd yr adolygiad gan Medr ym mis Mehefin 2026. Gwahoddwyd FDQ i wneud adolygiad byr.

Adolygiad: https://www.medr.cymru/cy/prentisiaethau/#llaimanwl

Anfonwch e-bost i prentisiaethau@medr.cymru gydag unrhyw adborth sy'n gysylltiedig â'r adroddiad hwn erbyn 16 Hydref 2026.

**Cysylltu:** prentisiaethau@medr.cymru